

Corff Llywodraethol Ysgol Abercaseg, Bethesda

Adroddiad Blynyddol i'r Rhieni/Gofalwyr

Cyflwynir yr adroddiad hwn ar sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn 2013-14

Cadeirydd 2013-14: Ms Fflur Roberts, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, LL57 3TE
Clerc: Ms Eirian Wynne, Bronydd Uchaf, Llanllechid, LL57 3LL

Pwy oedd aelodau'r Corff Llywodraethol?

<u>Enw</u>	<u>Cynrychioli</u>	<u>Dyddiad ethol/ apwyntio</u>	<u>Dyddiad diwedd eu cyfnod</u>
Hedd Rhys	Rhieni/gofalwr	09/10	08/14
Fflur Roberts	Rhieni/gofalwr	09/11	08/15
Emma Pritchard	Rhieni/gofalwr	09/13	08/17
Sioned Ryder	Rhieni/gofalwr	09/13	08/17
Emyr Roberts	Cymunedol	09/12	08/16
Gwilym Owen	Cymunedol	09/13	08/17
Bryan Griffiths	Cymunedol	09/13	08/17
Non Thomas	Cymunedol	09/13	08/17
Rheinallt Puw	Awdurdod Addysg	09/10/	08/14
Ann Williams	Awdurdod Addysg	09/12	08/16
Linda Brown	Awdurdod Addysg	09/12	08/16
Yvonne Griffiths	Athrawon	09/11	08/15
Karen Briggs	Staff Ategol	09/11	08/15
Sioned Hywel Thomas	Pennaeth		

Pryd fydd yr etholiad nesaf am riant-lywodraethwr?

Yn ystod tymor yr hydref, 2015 bydd etholiad yn cael ei gynnal ar gyfer penodi riant-lywodraethwr.

Pryd fu'r Corff yn cyfarfod?

2013 - Hydref 22ain, Rhagfyr 3ydd

2014 - Chwefror 18fed, Mai 20fed, Gorffennaf 8fed

Beth fu'r sefyllfa o ran plant a staffio?

Agorodd yr ysgol ym Medi 2013 gyda **110** o blant ar y gofrestr. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd **113** ar y gofrestr.

Cyflogir **4** aelod o staff addysgu llawn amser a **2** rhan amser. ynghyd â chymorthyddion i gefnogi'r dysgu ymhob dosbarth.

Tymhorau a sesiynnau

TYMOR:

Hydref 2013 2 Medi 2013 - 20 Rhagfyr 2013

Gwanwyn 2014 6 Ionawr 2014 - 11 Ebrill 2014

Haf 2014 28 Ebrill 2014 - 21 Gorffennaf 2014

Sesiynnau'r ysgol: 9.00am-12.00pm ac 1.00pm-3.00pm

(Agorir y drysau am 8.50yb.)

Beth ddiwyddodd yn yr ysgol o ran Anghenion Addysgol Arbennig?

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi o geisio adnabod anghenion addysgol arbennig mor fuan â phosibl yng ngyrfa'r plentyn yn yr ysgol gan gysylltu ac ymgynghori â'r rhieni/gofalwyr. Dyma faint oedd ar y gofrestr ADY Ym Medi 2013-14.

Gweithredu gan yr Ysgol	Mynegi Pryder (Ysgol yn unig)	25
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Cynllun Addysg Unigol gyda chyfraniad asiantaeth allanol	3
Gweithredu 3*	Cynllun Addysg Unigol a chymorth ychwanegol gan athro/athrawes arbenigol	1
Asesu Statudol a Datganiad	Ar Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig	1

Gosodir targedau unigol penodol a mesuradwy ar gyfer pob disgybl a thrafodir y rhain gyda'r rhieni. Adolygir y targedau yma ddwy waith y flwyddyn.

Roedd un cymhorthydd ADY yn cymryd 'grwpiau ymyrraeth' i weithio ar sgiliau llythrennedd a rhifedd ym mlynnyddoedd 1 a 2.

Roedd Athrawes GAD yn gweithio gyda grŵp amddifadedd (prydau cinio am ddim) BI2 ac athrawes yn cymryd grwpiau ymyrraeth y dosbarth derbyn am 3 awr yr wythnos.

Mae therapyddion iaith a lleferydd a'r athrawes ymgynghorol anhwylderau iaith wedi bod draw yn rheolaidd i weld plant sydd ar y gofestr gyda staff yr ysgol yn gweithredu ar eu hargymhellion

Caiff plant eu tracio'n dymhorol er mwyn mesur unrhyw gynnydd. Mae'r cymorthyddion a'r athrawes AAA yn sicrhau bod yr holl weithgareddau y maent yn eu cyflwyno yn seiliedig ar dargedau unigol y disgyblion. Adroddir yn ôl i'r athrawes dosbarth a'r cyd-lynnwyr AAA yn gyson ar ddatblygiad y plant.

Beth wnaeth yr ysgol yn y gymuned?

Mae'r ysgol yn ymwybodol iawn o'i rhan bwysig yn y gymuned ac o'r herwydd mae'n ceisio meithrin cysylltiadau a chyfrannu i weithgareddau ar sawl lefel. Dyma grynodedb o weithgareddau y llynedd:

- cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen (gwaith cartref a llwyfan);
- cystadlu yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen
- cystadlu gyda gwaith celf a llwyfan yn Eisteddfod yr Urdd;
- cyngerdd Nadolig yn Ysgol Dyffryn Ogwen
- cyswllt agos ag Ysgol Pen y bryn (ymweliadau ayyb);
- cymryd rhan mewn cyngherddau
- nifer o ymweliadau gan ymwelwyr i'r ysgol, e.e. yr heddlu, y gwasanaeth tân, yr archifdy
- ymweliadau addysgol yn ymwneud â thema dosbarth;
- hyfforddi darpar athrawon o Brifysgol Bangor;
- gweithgareddau codi arian gan y Cyfeillion;
- casglu arian tuag at elusennau lleol
- casglu arian tuag at elusennau rhyngwladol;
- parhau gyda'r cyswllt â theulu ym Mhatagonia
- cydweithio ag aelodau o'r gymuned i gynnal a chadw gardd ysgol

- casglu bocsys 'sgidiau' tuag at 'Operation Christmas Child;
- casglu sbwriel o amgylch y pentref fel rhan o ymgyrch Wythnos Cymru'n Daclus

Beth oedd prif dargedau'r ysgol am y flwyddyn 2013-2014 a sut llwyddwyd i'w cyflawni?

Blaenoriaeth 1- Llythrennedd

- **Ymgorffori'r FfLI ar draws y rhaglenni astudio**
- **Datblygu'r cyfleoedd i ddisgyblion i feithrin eu sgiliau 'darllen a deall' yn drawsgwricwlaidd**
- **Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol** - FfLI wedi ei fapio ar draws y meysydd dysgu ac wedi ei ymgorffori i gynlluniau tymor hir\canolig\byr yr ysgol. Tystiolaeth o'r cyfleoedd i ddatblygu llythrennedd yn drawsgwricwlaidd i'w weld o fewn yr addysgu (adroddiadau arsylwi gwersi) ac hefyd yn llyfrau'r plant a chynlluniau'r athrawon. Pennaeth wedi bod yn cydweithio â phartner y RhGG a bellach yn gweithredu gofynion Cam 3 o'r FfLI .
- **Portffolio llythrennedd** - Un sampl, bob hanner tymor, o bob dosbarth wedi eu cynnwys yn y portffolio sy'n dangos enghreifftiau o sut y caiff llythrennedd ei gyflwyno'n drawsgwricwlaidd ac ar lefelau y gwahanol ddeilliau. Yr arfer yma i barhau yn 2014/15.
- **Adnoddau darllen a deall** - Cynrycholiwyr o'r rhwydwaith wedi cyfarfod yn Nhymor yr Hydref gan greu adnoddau 'darllen a deall' amrywiol (arddulliau ysgrifennu gwahanol a thrawsgwricwlaidd) ar draws ystod oedran cynradd. Y dair ysgol wedi derbyn yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio yn drawsgwricwlaidd gan yr athrawon i ddatblygu dealltwraieth y disgyblion o'r testunau y maent yn eu darllen. Er hyn, o ddadansoddi y profion darllen, mae angen parhau i ddatblygu medrau'r disgyblion i ddehongli testun gan barhau i greu mwy o adnoddau darllen trawsgwricwlaidd.
- Hyfforddiant mewnol i'r athrawon a'r cymorthyddion ar gwestiynu'r disgyblion wrth wrando arnynt yn darllen (arweiniad Estyn) i asesu eu dealltwraieth o'r testunau.
- Athrawon wedi mynychu hyfforddiant ar TRUGS gan readru'r wybodaeth i'r cymorthyddion o dan eu gofal. Defnydd cyson o'r adnodd ym flwyddyn 1 a gyda disgyblion grwpiau GAD ac ADY BI 2 o fewn y sesiynau 'ymyraeth' dyddiol.
- Athrawon wedi derbyn hyfforddiant ar y cynllun ffoneg 'Tric a Chlic' a'r cynllun yn cael ei weithredu yn y blynyddoedd meithrin, derbyn a gyda grwpiau ymyrraeth/GAD /ADY ym mlynnyddoedd 1 a 2.
- Pryniant o gyfres Gwybydyn (llyfrau gwybodaeth) gyda'r athrawon yn mlynnyddoedd 1 a 2 wedi creu adnoddau 'darllen a deall' yn seiliedig ar y cynllun er mwyn datblygu medrau darllen a deall a chyflwyno llythrennedd yn drawsgwricwlaidd.
- Cymorthyddion dosbarth wedi cynnal clwb darllen i rieni a disgyblion blwyddyn 1 ar ddatblygu medrau darllen drwy greu llyfrau gan ddefnyddio appiau amrywiol. Prynawn cwricwlaidd wedi ei gynnal ar gyfer holl rieni'r ysgol lle rhoddwyd arweiniad a syniadau ynglŷn â sut y gallent gynorthwyo eu plant i ddatblygu sgiliau ffoneg a darllen drwy ddefnyddio strategaethau 'Tric aChlic', appiau, gwefanau a gemau amrywiol.
- Grwpiau targed blynyddoedd derbyn 1 a 2, a adnabyddir drwy asesiadau athrawon, wedi bod yn derbyn cymorth ychwanegol yn ddyddiol yn y medrau allweddol.
- Athrawon wedi mabwysiadu arddull cynllun 'Tric a Clic' ar sut i ddyysgu'r disgyblion i ffurfio llythrennau. O ganlyniad, cysondeb o ran ffurfiant drwy'r ysgol. Er hyn, mae angen datblygu ymhellach, yn y meithrin, y

cyfleodd i'r plant arbrofi gyda marciau a ffurfio llythrennau a geiriau o fewn gwahanol ardaloedd y dosbarth.

- Ymgynghorydd Cyfnod Sylfaen wedi cynnal hyfforddiant i athrawon a chymorthyddion yr ysgol ar 'Ddysgu yn yr Awyr Agored' ac adnoddau wedi eu prynu i gyfoethogi'r profiadau dysgu.

Blaenoriaeth 2 - Rhifedd

- **Addasu cynlluniau gwaith i gyd fynd a'r FfRh**
- **Datblygu ymhellach medrau'r disgyblion i resymu'n fathemategol wrth ddatrys problemau.**
- **Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol** - FfRh wedi ei fapio ar draws y meysydd dysgu ac wedi ei ymgorffori i gynlluniau tymor hir\canolig\byr yr ysgol. Cyfleoedd i ddatblygu rhifedd yn drawsgwricwlaidd i'w weld o fewn yr addysgu (adroddiadau arsylwi gwersi) ac hefyd yn llyfrau'r plant a chynlluniau'r athrawon. Pennaeth wedi bod yn cydweithio a'r phartner y RhGG a bellach yn gweithredu gofynion Cam 3 o'r FfRh.
- **Portffolio rhifedd** - Un sampl, bob hanner tymor, o bob dosbarth wedi eu cynnwys yn y porffolio sy'n dangos enghreifftiau o sut y caiff rhifedd ei gyflwyno'n drawsgwricwlaidd ac ar lefelau y gwahanol ddeilliannau. Yr arfer yma i barhau a'i ddatblygu ymhellach yn 2014/15 drwy gydweithio ag athrawon CS saith ysgol sy'n rhan o'r 'Teulu' Setiau Data Craidd gan gasglu enghreifftiau a chyd lefelu gwaith rhifedd trawsgwricwlaidd ar draws ystod oedran y CS.
- **Ymresymu Rhifyddol** - Athrawon wedi mynychu hyfforddiant gan Carol Ayres ac wedi arsylwi arni'n rhoi gwers gyda'r ffocws ar 'ymresymu rhifyddol'. Cydlynodd Rhifedd wedi mynychu hyfforddiant sirol ar 'Ymresymu Rhifyddol' gan readru cynnwys yr hyfforddiant i athrawon yr ysgol. Pennaeth wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion yr ysgol. Prynant o'r adnodd 'Dewch i Feddwl Mathemategol' ynghyd ag adnoddau 'Beam' gyda'r gweithgareddau'n cael eu defnyddio drwy'r ysgol. Hyder yr athrawon a'r cymorthyddion ynghyd a'u dealltwriaeth o'r broses o ymresymu wedi cynyddu, gyda mwy o ffocws ar gyflwyno gweithgareddau amrywiol lle mae angen i'r disgyblion ddefnyddio eu sgiliau mathemategol i ddatrys problemau.

Sefydlwyd Cymuned Ddysgu gyda Ysgol Pen y bryn a Bro Lleu, gyda'r athrawon yn cael eu rhyddhau i greu adnoddau a oedd yn meithrin sgiliau ymresymu mathemategol y disgyblion yn drawsgwricwlaidd. Gwneir defnydd o'r gweithgareddau i ddatblygu medrau rhesymu. Er bod cynnydd yn medrau'r disgyblion wrth ddefnyddio eu sgiliau mathemategol i ddatrys problemau rhifedd, mae canlyniadau y prawf rhesymu yn is na'r prawf rhifedd ac mae angen parhau i feithrin gallu'r disgyblion i gymhwyso ffeithiau, medrau a rhesymu rhifiadol syml i broblemau go iawn' gan ddilyn y camau isod:-

-Penderfynu drostyn nhw eu hunain pa sgiliau rhifiadol i'w defnyddio

-Cymhwyso eu dull i weithio tuag at ateb

-Rhoi esboniadau mathemategol ystyrion

-Pwyso a mesur y deilliannau

- **Mentergarwch** –Bl 2 wedi bod greu bathodynau a gwerthu teisenau cri yn ystod wythnos 'Dathlu Cymreictod'. Y broses o gymryd archebion, prynu offer/adnoddau/cynhwysion, cyfrifo costau, pennu prîs er mwyn sicrhau elw ,wedi datblygu medrau'r disgyblion o ddefnyddio eu sgiliau mathemategol i ddatrys problemau 'bob dydd'.

- Cynhaliwyd noson gwricwlaidd i'r rhieni a'u plant lle rhoddwyd cyflwyniad ar yr adnodd Numicon a sut y caiff ei ddefnyddio ar draws yr ysgol i ddatblygu sgiliau mathemategol amrywiol. Rhoddwyd cyfle i'r rhieni ymroi i dasgau mathemategol gyda'u plant gan ddefnyddio Numicon a dosbarthwyd taflen yn cynnig syniadau am ffyrdd o gynorthwyo'r plant gartref gyda thasgau mathemategol. Bu i 100% o'r rhai a fynychodd nodi fod y cyflwyniad, y gweithgareddau a'r daflen arweiniad/syniadau wedi datblygu eu dealltwriaeth o sut i fynd ati i gynorthwyo eu plant gyda mathemateg gartref.
- Grwpiau targed blynyddoedd derbyn, 1 a 2, a adnabyddir drwy asesiadau athrawon, wedi bod yn derbyn cymorth ychwanegol yn ddyddiol yn eu medrau mathemategol gyda 100% wedi gwneud cynnydd. Er hyn, mae'r cynnydd yn benodol mewn 'trin data' a 'siâp a gofod' tra mai 25% o'r grŵp targed ym mlwyddyn 2 sydd wedi cyrraedd deilliant 5 mewn 'rhif' a 'defnyddio a chymhwyso' (targed diwedd blwyddyn yn 30%). Mae'r agweddau yma angen eu targedu ymhellach yn 2014/15.
- Ymgynghorydd Cyfnod Sylfaen wedi cynnal hyfforddiant i athrawon a chymorthyddion yr ysgol ar 'Ddysgu yn yr Awyr Agored' ac adnoddau wedi eu prynu i hyrwyddo'r dysgu. Gweithgareddau trawsgwricwlaidd diddorol yn cael eu haddysgu mewn rhai dosbarthiadau. Er hyn, mewn rhai dosbarthiadau nid oes digon o weithgareddau yn cael eu cynllunio ar gyfer addysgu rhifedd yn yr awyr agored. Bydd yr agwedd yma'n parhau i gael ei fonitro yn 2014/15.
- Bu i ddisgybion pob dosbath gwblhau holiaduron yn nodi yr agweddau o fathemateg y maent yn ei fwynhau a'r agweddau sy'n achosi problemau iddynt. Ymhlith y rhai sy'n achosi problemau mae arian, lluosï/rhannu ac amser. Mae'r agweddau yma wedi eu cynnwys fel rhan o flaenoriaeth 'rhifedd' CDY 2014/15 ac arian wedi ei glustnodi ar gyfer prynu adnoddau a fydd yn cefnogi a chyfoethogi'r dysgu.
- Cynlluniau, samplau gwaith a chofnodion tracio ac asesu yn dangos datblygiad yn sgiliau'r plant o flwyddyn i flwyddyn. Cynnydd da neu well yn natblygiad sgiliau'r plant haen uchaf gyda haenau canolig yn parhau i wneud cynnydd sefydlog o flwyddyn i flwyddyn a'r grwpiau targed yn gwneud cynnydd o fewn eu gallu.

Blaenoriaeth 3 – Asesu

- **Datblygu ymhellach prosesau asesu, tracio a gosod targedau yr ysgol**
- **Incerts** - Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth wedi ymweld ag Ysgol Penisarwaen a Porth y Felin i ddatblygu dealltwriaeth ac adnabyddiaeth o raglen Incerts. O ganlyniad, defnyddir Incerts a'r app Incerts snap i adnabod grwpiau gwahanol o blant, i dargedu ymyrraethau, i fonitro cynnydd unigolion oddi fewn y grwpiau targed, ac i sicrhau ymyrraethau priodol ar gyfer dysgwyr sy'n tangyflawni yn ogystal a'r lefel briodol o her ar gyfer y disgyblion MAT. Incerts bellach yn adnodd sy'n arwain y cynllunio, y targedu, y craffu a'r arfarnu.
- Adroddiadau diwedd blwyddyn yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio Incerts ac yn seiliedig ar feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Ansawdd yr adroddiadau yn gynhwysfawr gyda'r sylwadau yn nodi cynnydd ac yn gosod targedau/camau nesaf y dysgu, ar gyfer pob unigolyn.
- **Asesu ar gyfer Dysgu** - Mae prosesau asesu ar gyfer dysgu wedi'u gwreiddio'n dda iawn yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol iawn ee. llunio m.p. ll ar y cyd, cwestiynau agored ac ymestynol, partneriaid trafod, hunanwerthuso. Er hyn, mae angen datblygu ymhellach yr arfer o lunio m.p. ll (yn weledol) yn y blynyddoedd cynnar, fel bod y disgyblion, ar lefel syml, yn medru gwerthuso eu hymdrechion yn y sesiwn adfyfrio. Yn yr un modd, mae angen i'r adborth ysgrifenedig a roddir gan yr athrawon fod yn seiliedig ar y m.p. ll ac hefyd yn nodi camau ar gyfer gwelliant yn ogystal a datblygu ymhellach yr arfer o gael y disgyblion yn gwerthuso eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion, a chael disgyblion blwyddyn 2 i ail ddrafftio rhannau o'u gwaith.

Blaenoriaeth 4 : Llywodraethwyr

- **Datblygu ymhellach rôl y Llywodraethwyr yn y broses hunan arfarnu**

- Hyfforddiant/cyflwyniadau wedi eu cynnal ar y canlynol:-
 - Dadansoddi Setiau Data Craidd a pherfformiad yr ysgol
 - Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a sut y caiff llythrennedd a rhifedd ei ddatblygu'n drawsgwricwlaidd yn yr ysgol
 - Gweithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol (derbyn adroddiadau ymhob cyfarfod)
- Aelodau o'r corff llywodraethol wedi mynychu hyfforddiant sirol ar:-
 - Diogelu Plant (Lefel 2)
 - Rôl y Llywodraethwyr (dau aelod newydd)
 - Rôl Cadeirydd y Corff Llywodraethol
- Yr hyfforddiant/cyflwyniadau wedi sicrhau eu bod yn hyddysg parthed blaenoriaethau cenedlaethol (llythrennedd a rhifedd); eu bod yn datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill (Teulu Setiau Data Craidd) ysgolion y Sir ac ysgolion Cymru; eu bod yn ymwybodol o safonau cyrhaeddiad y disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth o ran y profiadau dysgu a'r addysgu.
- O ganlyniad, maent wedi datblygu ymhellach eu rôl wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol drwy gwestiynu a herio unrhyw dan berfformio a gosod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

Uchafbwyntiau'r flwyddyn

- Bu'r ysgol yn cystadlu'n frwd yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen yn Nhachwedd 2013 a Sioe Dyffryn Ogwen yn Mehefin 2014 (celf a chrefft). Profwyd llwyddiant mewn nifer o gystadlaethau, a braf o beth oedd cefnogi'r eisteddfod a'r sioe leol unwaith eto. Bu'r ysgol yn llwyddiannus gyda chystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd.
- Cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Bu i'r plant fwynhau'r profiad yn fawr a bu i chwithau, fel rhieni a gofawyr hefyd fynegi eich mwynhad.
- Mae'r clybiau gofal amser cinio a phrynhawn ar dir yr ysgol wedi derbyn ymateb da ac yn gaffaeliad mawr i'r ysgol.
- Dyfarnwyd Gwobr Efydd a Gwobr Arian Siarter yr Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd i'r ysgol yn ystod y flwyddyn.
- Dewisiwyd yr ysgol i gydweithio ar brosiect 'Y Cwprdd Dillad' gyda Chwmni Frân Wen.
- Cafodd gwaith arbennig y Sgwad Syniadau ei gydnabod yn genedlaethol gyda'r Prif Swyddog Iechyd Cyhoeddus yn ymweld â'r ysgol.

Canlyniadau Aseidiadau Diwedd y Cyfnod Sylfaen (Canrannau)

Llythrennedd	Canlyniad diwedd CS
Deilliant 4	6.2%(2 blentyn)
Deilliant 5	36.4%
Deilliant 6	57.5%

Rhifedd	Canlyniad diwedd CS
Deilliant 4	13.2%(4plentyn)
Deilliant 5	36.3%
Deilliant 6	51.5%

Personol a chymdeithasol	Canlyniad diwedd CS
Deilliant 4	0%
Deilliant 5	12.2%
Deilliant 6	87.8%

Deilliant 5 yw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer disgyblion blwyddyn 2. Mae'r tabl uchod yn dangos fel y bu i ganran uchel iawn o ddisgyblion berfformio'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig gan sgorio deilliant 6. Yr unig ddisgyblion na lwyddodd i sgorio deilliant 5 neu uwch oedd y rhai hynny a oedd ag anhawsterau dysgu ac yn derbyn cymorth gan athrawes a chymhorthydd AAA.

Beth yw targedau'r ysgol ar gyfer y tair blynedd nesaf (Deilliant 5 neu well)

TARGEDAU

	2014-15	2015-16	2016-17
Personol a chymdeithasol	100%	96%	94.1%
Llythrennedd, iaith a chyfathrebu	100%	96%	79.4%
Datblygiad mathemategol	100%	96%	73.5%

A oedd presenoldeb y plant yn yr ysgol yn dda?

Mae canranau presenoldeb yr ysgol wedi aros yn debyg dros y dair blynedd diwethaf, ac yn cael ei fonitro'n gyson gan y Llywodraethwyr.

tymor yr hydref 2013 -	<u>96.1</u>
tymor y gwanwyn 2014 -	<u>94.1</u>
tymor yr haf 2014 -	<u>95.9</u>

Cyfartaledd y flwyddyn -	<u>95.4</u>
--------------------------	--------------------

Targed yr ysgol yw	<u>95.6</u>
--------------------	--------------------

Beth yw trefniadau diogelwch yr ysgol?

Mae trefniadau diogelwch i'w dilyn yn yr ysgol ac fe fyddant yn cael eu hadolygu gan y Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

Tân: cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd. Mae holl aelodau'r staff addysgu yn weithredol yn y broses ymarferion a diogelwch tân. Archwilir y diffoddyddion tân yn flynyddol gan asiantaeth allanol. Profir y goleuadau argyfwng yn rheolaidd.

Mynedfeydd: mae mynedfeydd yr ysgol wedi eu diogelu gyda chlo digidol a barrau gwthio mewnlol. Gellir cael mynediad i'r ysgol trwy ganu cloch yn y brif fynedfa. Diogelir tir yr ysgol gan ffensys a gatau.

Adeiladau: cynhelir arolwg o adeiladau'r ysgol yn flynyddol gan is-banel o'r Llywodraethwyr ac mae'r Pennaeth yn cadw golwg ar eu diogelwch o ddydd i ddydd gan hysbysu'r awdurdodau o unrhyw beryglon.

Offer: archwilir offer addysg gorfforol yn flynyddol gan asiantaeth allanol. Archwilir holl offer trydanol yn flynyddol gan asiantaeth allanol.

Cymorth Cyntaf: mae dwy aelod o staff wedi derbyn tystysgrif Cymorth Cyntaf yn dilyn cwrs pedwar diwrnod.

Pa drefniadau a wneir ar gyfer plant anabl?

Caiff camau eu cymryd er mwyn hwyluso mynediad plant anabl i addysg gyflawn gyda rampiau, lifft a thoiled anabl yn yr ysgol. Mae cynllun gweithredu hygyrchedd yn weithredol yn yr ysgol (cynllun ar wefan yr ysgol neu gellir derbyn copi gan y Pennaeth).

Beth wnaeth yr ysgol mewn chwaraeon?

Rhoddir pwyslais ar ddatblygu ffitrwydd yn yr ysgol. Cynhelir 'Dreigiau Bach' gan y cymorthyddion a'r rhieni a caiff y plant gyfle i fynd a bagiau Addysg Gorfforol adref dros y penwythnosau. Cynhelir gwersi Addysg Gorfforol a sesiynau datblygu ffitrwydd yn wythnosol gyda'r ffocws ar ddatblygu sgiliau gymnasteg, dawns a pêl. Bydd plant Blwyddyn 2 yn cael gwersi nofio hefyd. Yn ystod amseroedd chwarae mae cyfle i'r plant chwarae ag offer ffitrwydd.

Beth mae'r ysgol yn ei wneud i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach?

Caiff bwyta ac yfed yn iach ei hyrwyddo'n gyson drwy gwriciwlwm yr ysgol a thrwy'r canlynol:-

BYRBRYDAU

Ffrwythau/llysiau

Mae croeso i'r plant ddod â ffrwythau neu lysiau i'w bwyta yn ystod amser llefrith/dŵr neu gellir prynu ffrwythau yn yr ysgol am gôst o £1.25 yr wythnos. **Ni chaniateir bwyta melysion yn yr ysgol.**

Llefrith

Mae Cynulliad Llywodraeth Cymru yn talu am lefrith i blant ysgolion Cymru i'w yfed yn ystod y dydd yn yr ysgol. Mewn achos lle nad yw'r plentyn yn yfed llefrith, caniateir iddo/iddi yfed dŵr (**ni chaniateir unrhyw ddiod arall**).

Yfed dŵr

Gan bod yr ysgol yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd rydym yn awyddus i'r plant ddod â photel o ddŵr gyda hwy i'r ysgol er mwyn iddynt gael yfed dŵr yn ystod y dydd. Yn unol â chanllawiau 'Rheoli Haint ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd' anogir rhieni i lanhau poteli dŵr yn ddyddiol i leihau'r risg o halogi.

Cinio Ysgol

Mae'r bwydlen cinio'r ysgol yn cyd fynd â chanllawiau dogfen 'Blas am Oes' y Cynulliad. Pan fo plant yn dewis dod a bocsys bwyd rydym fel ysgol yn ceisio annog '**Bocsys Bwyd Iach**'.

YMARFER CORFF

Bydd y plant yn cymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol yn wythnosol yn ogystal a datblygu eu ffitrwydd yn ystod yr amseroedd egwyl a chinio drwy weithgareddau amrywiol sydd wedi eu hamserlenu ac yn cael eu harwain gan y cymorthyddion dosbarth. Mae'r cymorthyddion gyda chymorth rhieni'r ysgol yn cynnal clwb chwaraeon 'Dreigiau Bach'(ar ôl oriau ysgol) i ddatblygu ymhellach ffitrwydd y plant.

CYFLEUSTERAU TOILED

Mae holl doiledau'r ysgol mewn cyflwr da iawn ac yn cael eu glanhau'n ddyddiol. Mae pymphiau sebon pwrpasol a sychwyr dwylo ymhob un. Mae'r plant hefyd yn derbyn hyfforddiant ar sut i olchi eu dwylo'n drylwyr.

A fu newid i lawlyfr yr ysgol?

Ni fu newid o ran diwyg i lawlyfr yr ysgol, dim ond diweddarau'r wybodaeth ynddo. Mae'r llawlyfr yn cael ei ddsbarthu i bob cartref ac ar gael i'w ddarllen ar wefan yr ysgol.

Beth ddylwn wneud os wyf yn poeni am agwedd o fywyd yr ysgol?

Cysylltwch â'r Pennaeth yn syth. Mae hi'n fodlon gwrandao ar unrhyw bryder bob amser gyda'r ysgol yn gweithredu'r polisi o 'Ddrws Agored'. Gellir hefyd wneud trefniadau i gyfarfod yr athrawon pan fo rhieni angen trafod unrhyw fater. Mae hefyd yn bosibl cysylltu â llywodraethwr, yna gall ef/hi dynnu sylw'r Pennaeth i'r mater.

Datganiad Ariannol

Derbyniodd y Llywodraethwyr gopi o wariant yr ysgol yn gyson drwy'r flwyddyn a chynhaliwyd trafodaethau cyson i drafod y gyllideb a'r daflen falans. Mae copi o'r gyllideb derfynol 13/14 ynghlwm. Roedd balans ddiwedd blwyddyn ariannol yn dangos ein bod yn cario **£77,907** o'n cyllideb trosodd. Defnyddiwyd **£40,003** ohono i osod y gyllideb ac oherwydd y rhagolygon o doriad sylweddol yn y gyllideb dros y blynyddoedd nesaf, a clustnodwyd y gweddill i gynnal y lefel staffio sy'n sicrhau dosbarthiadau gyda llai na 30 disgybl.

Rhoddion

Derbyniwyd rhoddion gan 'Gyfeillion yr Ysgol' yn ystod 2013-14 a defnyddiwyd £1500 tuag at gostau canopy newydd y tu allan.

Gwariant y Llywodraethwyr ar Gynhaliaeth a Theithio

Penderfynodd y Corff Llywodraethol nad oeddent am hawlio cynhaliaeth a chostau teithio.